Cyngôr Sir y Fflint

Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid

Ysgol Uwchradd John Summers

Dogfen Ymgynghori ar y Cynnig:

I newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 11-16 (31 Awst 2016) ac i gau Ysgol Uwchradd John Summers 11-16 (o 31 Awst 2017)

Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth berthnasol ynglŷn â:

(i) Pham mae'r Awdurdod yn bwriadu rhoi'r gorau i ddarpariaeth 16-18 yn Ysgol John Summers erbyn 31 Awst 2016; a
(ii) Darparu gwybodaeth berthnasol am y cynnig i argymell cau Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2017.

Yn flaenorol, mae'r Awdurdod wedi ymgynghori ar y newid arfaethedig o'r ystod oedran 11-18 i 11-16 yn John Summers gan greu ysgol 3-16, gan gynnwys Ysgol Gynradd Queensferry

Bydd ymgyngoreion yn ymwybodol bod yr Awdurdod wedi mynd rhagddo gyda chynllun cyfalaf yn flaenorol ar gyfer Campws Queensferry drwy raglen ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

Dechreuodd esblygiad achos busnes Campws Queensferry yn ôl yn 2010 pan gyflwynodd yr Awdurdod Lleol ei Gynllun Amlinellol Strategol, fel rhan o'i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, i Lywodraeth Cymru. Roedd y cynllun gwreiddiol yn cynnwys y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers oherwydd diffyg galw disgyblion. Ymrwymodd Sir y Fflint i gyfnod o ymgynghori ffurfiol, ac ni phenderfynodd y Cabinet ar yr adeg hon i fwrw ymlaen â'r cynnig statudol i gau. Wedi hynny, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad polisi i ddatblygu achos busnes ar gyfer ysgol i blant 3-16 oed, a champws newydd i Ysgol Uwchradd John Summers.

Felly, aeth yr Awdurdod ymlaen drwy gamau o'r broses achos busnes HM fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru o dan ei raglen ariannu ysgolion yr 21ain Ganrif, lle mae'n rhaid i'r awdurdod fod wedi "llunio" dyluniadau a chadarnhau costau, ynghyd â

chymeradwyaeth Cynigion Statudol, sydd hefyd angen data cadarn i gefnogi prosiectau arfaethedig yn ystod y cam Achos Busnes Llawn.

Cafwyd oedi ac adolygu ynghylch prosiect cyfalaf Campws Queensferry, oherwydd pryder o amgylch gwydnwch y data critigol a oedd ei angen i gefnogi cyflwyniad yr achos busnes cyfalaf i Lywodraeth Cymru am arian drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif; cododd y data diweddaraf gwestiynau ynghylch hyfywedd y prosiect.

Y sail ar gyfer yr achos gwreiddiol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf oedd y byddai tri dosbarth yn cael mynediad i Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 2019, gyda datblygiad arfaethedig Porth y Gogledd, gan gynyddu poblogaeth yr ysgol yn ysgol pedwar dosbarth yn y pen draw (CA3/4) gydag oddeutu 600 o leoedd.

Gwnaeth yr Awdurdod oedi ac adolygu a chynnal cyfres o gyfarfodydd gyda Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Queensferry ac Ysgol Uwchradd John Summers. Ffurfiwyd grŵp cynrychioliadol o Lywodraethwyr hefyd i brofi gwytnwch y data ac ystyried a oedd gwybodaeth arall ar gael a all gefnogi cyflwyno achos busnes cyfalaf. Cymerwyd canfyddiadau'r cam oedi ac adolygu i'r Cabinet am benderfyniad.

17 Chwefror 2015, penderfynodd y Cabinet:

Ar y sail nad yw'r dadansoddiad data yn cefnogi'r parhad drwodd i Achos Busnes Llawn am gyllid cyfalaf, penderfynodd y Cabinet:

(i) beidio â bwrw ymlaen â'r Achos Busnes Llawn;

(ii) agor cyfnod o ymgynghori ffurfiol â budd-ddeiliaid allweddol yr ardal ar y ffordd orau i sicrhau addysg gynaliadwy, gadarn, o ansawdd uchel yn yr ardal er mwyn rhoi adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol.

Daeth y cynnig statudol gwreiddiol a gytunwyd gan Weinidog Cymru (13 Awst 2014) i newid ystod oedran y campws o 3-16 i ben ar 31 Mawrth 2015, gan fod y penderfyniad yn amodol ar gyflwyno Achos Busnes Llawn llwyddiannus i Lywodraeth Cymru. Felly, mae ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers yn parhau ar hyn o bryd i fod yn 11-18 gydag Ysgol Gynradd Queensferry yn ysgol gynradd 3 i 11 oed, yn seiliedig ar benderfyniad blaenorol y Gweinidog.

Nid yw gwneud dim o ran ad-drefnu ysgol yn opsiwn dichonadwy o ystyried penderfyniad y Cabinet ym mis Chwefror 2015, a'r cynnydd ar brosiect ôl-16 cydweithredol yr Awdurdod yng Ngholeg Cambria, y gwnaeth y gymuned ei gefnogi'n wreiddiol. Mae niferoedd myfyrwyr ôl-16 yn ei gwneud yn amhosibl i Lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers ddiwallu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Er mwyn diogelu hawl dysgwyr i gael mynediad at ystod o gyfleoedd dysgu eang ac o safon uchel, mae'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion (2014) yn nodi y bydd darpariaeth ôl-16 yn cael ei hadolygu mewn unrhyw ysgol uwchradd lle mae nifer y disgyblion yn y 6ed dosbarth yn disgyn o dan 150 o ddisgyblion am dair blynedd yn olynol.

Yn ogystal, mae pryder ynglŷn â diffyg niferoedd disgyblion cyfredol ac wedi'u rhagamcanu yn y dyfodol i gefnogi darpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd John Summers hefyd; mae hyn yn cael ei waethygu gan ostyngiad a ragwelir mewn cyfraddau geni. Yn ogystal, mae materion cyllidebol ysgol yn cael eu cymhlethu gan niferoedd gostyngol disgyblion, ac mae hyn yn sail i bryder yr Awdurdod am yr ysgol yn gallu cynnal digon o gyfleoedd cwricwlwm i ddysgwyr. Mae isadeiledd yr ysgol ei hun yn heneiddio ac yn anghynaladwy. Mae niferoedd gostyngol disgyblion yn golygu bod Ysgol Uwchradd John Summers â llawer iawn o leoedd gwag (mwy na 25%), sy'n sbardun ar gyfer adolygiad yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod.

Felly, bydd cyfle i bawb yr effeithir arnynt roi eu barn ar y cynigion a amlinellir yn yr adroddiadau ymgynghori. Bydd hyn yn cynnwys llywodraethwyr, rhieni, gofalwyr, a staff o Ysgol Uwchradd John Summers. Bydd pobl eraill â diddordeb hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori.

Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer Ysgol Uwchradd John Summers yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Gorffennaf 2013) yn dechrau 5 Mehefin 2015 ac yn cau ar 17 Gorffennaf 2015. Bydd adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w ystyried mewn cyfarfod cabinet arbennig yng Ngorffennaf 2015 (dyddiad i'w gadarnhau), a bydd y Cabinet yn ystyried, yn seiliedig ar adborth a thystiolaeth yr ymgynghoriad, a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i Weinidog Cymru benderfynu arno.

Os byddant yn cael cefnogaeth y Cabinet a Gweinidog Cymru, bydd y cynigion yn dod i rym dros linell amser dameidiog; bydd y ddarpariaeth ôl-16 yn trosglwyddo i'r ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria yn unol â'r amserlen wreiddiol arfaethedig o Fedi 2016. Bydd y cynnig i gau yr elfennau sy'n weddill o'r ysgol ar 31 Awst 2017, mae hyn er mwyn amddiffyn dysgwyr blynyddoedd arholiad rhag newid yng nghanol y cyfnod arholiadau.

Pwy fyddwn yn ymgynghori â hwy

Rydym yn ceisio barn y budd-ddeiliaid canlynol:

- Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd John Summers
- Disgyblion Ysgol Uwchradd John Summers
- Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid, ac aelodau staff Ysgol Uwchradd John Summers
- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Aelodau Cynulliad ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ac Aelodau Cynulliad rhanbarthol ar gyfer yr ardal
- Swyddog Cludiant Sir y Fflint a Swyddogion Cludiant Awdurdodau Lleol cyfagos

- Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i Ysgol Uwchradd John Summers
- Cyrff llywodraethu eraill o ysgolion uwchradd cyfagos
- Cyrff llywodraethu eraill o ysgolion cynradd cyfagos
- Aelodau Seneddol Cyngor Sir y Fflint
- Estyn
- Undebau Llafur athrawon a staff nad ydynt yn athrawon
- Cyngor Tref
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Yr Urdd
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig
- GwE

Mae fersiwn atodol o'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i chynhyrchu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig.

Cefndir y Cynigion

ÔI-16

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) yn 2009. Arweiniodd hyn at hawliau gwell i bobl ifanc drwy'r Mesur Dysgu a Sgiliau. Roedd "Y Mesur" yn fodd o orfodi gweithredu'r Llwybrau Dysgu 14 i 19. Mae wedi sicrhau bod pob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4 yng Nghymru yn gallu dewis o blith o leiaf 25 o bynciau, a rhaid i dri o'r rhain fod yn alwedigaethol, a bod 30 o ddewisiadau ar gael i ddysgwyr 16-18 oed, a rhaid i 5 ohonynt fod yn alwedigaethol.

Cyn y Mesur Dysgu a Sgiliau, roedd darpariaeth chweched dosbarth Cyngor Sir y Fflint yn cael ei chynnig mewn 11 o'r 12 o ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint.

Ar ôl y Mesur, gweithredwyd trefniadau consortia i sicrhau bod ysgolion, trwy eu trefniant consortiwm, yn gallu cynnig yr ystod o gyrsiau a ragnodir gan y Mesur.

Mae Ysgol Uwchradd John Summers yn rhan sy'n weddill o Gonsortiwm Glannau Dyfrdwy yn gweithio gydag Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd St David ac Ysgol Uwchradd Treffynnon. Mae gan y consortiwm 6ed dosbarth a rennir sy'n golygu bod dysgwyr yn symud rhwng ysgolion i gael mynediad at y cyrsiau dewisol.

Mae rhaglen strategol Sir y Fflint i ddatblygu canolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru a gynrychiolir yn Ysgolion yr 21ain Ganrif, Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru a Chanllaw Llwybr Dysgu 14-19.

Y Cynigion

Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 i 11-16

(31 Awst 2016)

Y cynnig yw lleihau'r ystod oedran yn Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry (ysgol gymunedol, cyfrwng Saesneg) o 11-18 i 11-16, gan derfynu'r ddarpariaeth ôl-16 yn yr ysgol o 31 Awst 2016.

O fis Medi 2016 ymlaen, bydd darpariaeth dysgu ôl-16 ar gael i fyfyrwyr o Ysgol Uwchradd John Summers yn y ganolfan ôl-16 bwrpasol yng Ngholeg Cambria, Cei Connah.

Bydd y cyfleuster newydd yn helpu i ddarparu gwell canlyniadau addysgol a mwy o hyblygrwydd o ran dewis cwricwlwm a hefyd yn galluogi mynediad i ystod ychwanegol o gyrsiau a gynigir yn y coleg.

Yn ogystal, bydd y cynnig hwn yn arwain hefyd at fyfyrwyr o'r ardal consortiwm bresennol yn gallu cael mynediad i ystod briodol o gyrsiau mewn un cyfleuster arbenigol, yn hytrach na chael mynediad i gyrsiau ar nifer o safleoedd ysgol.

Mae 'Memorandwm Cytundeb' rhwng Cyngor Sir y Fflint a Choleg Cambria sy'n cynnwys adeiladu cyfalaf a 'Chytundeb Llywodraethu' sy'n ymdrin â sut y bydd y ganolfan ôl-16 yn cael ei llywodraethu. Bydd y Ganolfan yn cael ei llywodraethu gan lywodraethwyr Coleg Cambria o dan y cytundeb hwn ac yn unol â Rheoliadau Addysg Bellach.

Yn ogystal, mae grŵp ymgynghori wedi'i sefydlu ac mae'n gyfrifol am ddatblygu dull gweithredu sy'n cwmpasu ethos gweithio mewn partneriaeth a bod hyn yn cael ei integreiddio i'r modelau gweithredu ar gyfer y cyfleuster newydd. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraethwyr y Coleg, Swyddogion Cyngor Sir y Fflint, Penaethiaid a chynrychiolwyr llywodraethwyr yr ysgolion partneriaeth, gan gynnwys Ysgol Uwchradd John Summers.

Cau Ysgol Uwchradd John Summers 11-16 (31 Awst 2017)

Y cynnig yw cau Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry (ysgol gymunedol, cyfrwng Saesneg), gan derfynu'r ddarpariaeth ddysgu yn yr ysgol o Awst 2017.

Mae polisi Moderneiddio Ysgolion 2010 a diweddariad 2015 yn datgan y dylai derbyniadau i ysgolion uwchradd fod yn o leiaf pedwar dosbarth (120 o fyfyrwyr fesul grŵp blwyddyn derbyn) neu 600 o leoedd i gyd ar gyfer yr ystod oedran 11-16. Mae'n

ofynnol cael niferoedd o'r fath i ysgol allu cynnal ehangder cwricwlwm sy'n ofynnol o dan y Mesur Dysgu a Sgiliau.

Gostyngodd derbyniadau i Ysgol Uwchradd John Summers i 50 (llai na 2 ddosbarth mynediad) (roedd y rhagamcan yn 71) yn 2014, gyda grwpiau blwyddyn mwy (73 ar gyfer B11) gan adael yr ysgol gyda phroblemau cyllidebu a oedd yn gwaethygu, o gofio bod cyllidebau ysgolion i raddau helaeth yn cael eu pennu gan luosydd o niferoedd disgyblion. Drwy broses dderbyniadau 2015, mae gan yr ysgol 76 o ddewisiadau cyntaf. Yn Sir y Fflint, fel mewn unrhyw Gyngor arall, byddai derbyniad mor isel yn ddigon o reswm i adolygu sefyllfa'r ysgol, gan nodi patrwm dewis rhieni ar gyfer derbyniadau ysgol ac argaeledd lleoedd amgen yn yr ardal.

Mae data meincnodi cenedlaethol yn cadarnhau bod gan Sir y Fflint 2113 o leoedd heb eu llenwi yn y sector uwchradd. Mae hyn yn parhau i fod yn uwch na tharged Gweinidogion a tharged lleol o 10% (ffynhonnell: Data meincnodi cenedlaethol cynllunio lleoedd ysgol ADEW Medi 2014). Mae hyn yn golygu bod adnoddau'n cael eu dargyfeirio o gefnogaeth uniongyrchol ar gyfer dysgu ac addysgu i gynnal a chadw adeiladau a gweinyddiaeth o fewn y Sir.

Y sail ar gyfer yr achos gwreiddiol o fuddsoddiad cyfalaf oedd y byddai tri dosbarth yn cael mynediad erbyn 2019 a gyda datblygiad arfaethedig Porth y Gogledd, byddai hyn yn cynyddu'r boblogaeth ysgol yn ysgol pedwar dosbarth yn y pen draw gydag oddeutu 600 o leoedd.

Os byddai safleoedd datblygu tai o fewn Porth y Gogledd yn cael eu datblygu i'r uchafswm o 1325 o gartrefi (ffynhonnell: caniatâd cynllunio amlinellol) ac wrth gymhwyso'r fformiwla cynnyrch tai (0.174 fesul cartref ar gyfer uwchradd), byddai cyfanswm 'cynnyrch' niferoedd plant oedran ysgol uwchradd sy'n gymwys i gael eu derbyn i Ysgol Uwchradd John Summers yn 231. Os tybir y byddai'r garfan lawn hon o blant yn cael eu derbyn i Ysgol Uwchradd John Summers, byddai poblogaeth yr ysgol yn dal i fod yn 536 o ddisgyblion yn unig (rhagamcan 2016/17 305 + 231 uchafswm cynnyrch tai), pan fydd pob un o'r rhagamcanion hyn yn cael eu cyfuno.

Fodd bynnag, bydd Porth y Gogledd yn cael ei ddatblygu dros gyfnod o amser o 2016/17. Bydd cyflymder y datblygiadau tai yn cael ei gyfyngu gan gyflymder datblygu isadeiledd, cynlluniau perchnogion/datblygwyr y safle, y farchnad dai, yr hinsawdd economaidd bresennol a ffactorau eraill sy'n anodd eu rhagweld. Mae'r niferoedd terfynol yn y tai yn debygol o fod ymhell o fewn yr uchafswm y cyfeirir ato uchod, a bydd yn cael ei adeiladu dros nifer o flynyddoedd. Felly, bydd unrhyw garfan newydd o blant sy'n gymwys i gael eu derbyn yn isel yn y blynyddoedd cynnar sydd i ddod. Mae'r rhain yn uchafsymiau nad ydynt yn ystyried dewis rhieni ar gyfer ysgolion eraill.

O ystyried yr holl ffactorau uchod, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn nad yw Ysgol Uwchradd John Summers yn gynaliadwy mwyach yn ein portffolio ysgolion uwchradd.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd

Mae'r darpariaethau ôl-16 newydd arfaethedig wedi'u datblygu i wella ansawdd y ddarpariaeth ôl-16 o fewn Cyngor Sir y Fflint ac i sicrhau bod digon o gapasiti i ddiwallu'r angen.

Tabl 1 - Niferoedd ar Gofrestr Ysgol Uwchradd John Summers (Ôl-16)

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 12 (16-17)	28	29	21	24
Blwyddyn 13 (17-18)	21	25	26	26

Tabl 2 - Niferoedd Disgyblion – Rhagamcan Ysgol Uwchradd John Summers)

(Gan dybio y bydd ôl-16 yn cau Medi 2016)

	Gwirioneddol Medi 14	Medi 15	Medi 16	Medi 17	Medi 18	Medi 19
Blwyddyn 7 -11	311	310	305	306	301	327
Blwyddyn 12 – 13	50	43				
Cyfanswm nifer ar y gofrestr	361	353	305	306	301	327

Tabl 3 - Rhagamcan o leoedd heb eu llenwi yn Ysgol Uwchradd John Summers (11-18) ac 11-16. Gwirioneddol (G) Rhagamcan (Rh)

Nifer	(G) Medi 14 Lleoedd heb eu llenwi	(Rh)% Medi 15 Lleoedd heb eu llenwi	(Rh)% Medi 16 Lleoedd heb eu llenwi* (Gan dybio bod	(Rh)% Medi 17 Lleoedd heb eu llenwi	(Rh)% Medi 18 Lleoedd heb eu llenwi	(Rh)% Medi 19 Lleoedd heb

			darpariaeth ôl-16 yn symud)			eu llenwi
565 (Cyn Medi 16)	36.11	37.52				
597 (ar ôl Medi 16)			48.91	48.74	49.58	45.23

Tabl 4 – Cymhariaeth nifer/lleoedd heb eu llenwi ag ysgolion uwchradd lleol (Medi 2014)

Enw'r ysgol	Bl 7 - 11	Blwyddyn 12 - 13	Cyfanswm	Nifer	Niferoedd Derbyn	Lleoedd heb eu llenwi	% o leoedd heb eu llenwi
Ysgol Uwchradd John Summers	311	50	361	565	104	204	36.11
Ysgol Uwchradd Cei Connah	792	112	904	1102	198	198	17.97
Ysgol Uwchradd St David	420	85	505	687	117	182	26.49
Ysgol Uwchradd Penarlâg	962	190	1152	1145	195	-7	-0.61
CYFANSWM	**2485**	**437**	**2922**	**3499**		**577**	**19.99**

Tabl 5 - Rhagamcan o wybodaeth – Trawsnewid Ôl-16 (data 2016)

Enw'r ysgol	Bl 7 - 11	Blwyddyn 12 - 13	Cyfanswm	Nifer	Niferoedd Derbyn	Lleoedd heb eu llenwi	% o leoedd heb eu llenwi
Ysgol Uwchradd John Summers	340	0	340	597	110	257	43.05
Ysgol Uwchradd Cei Connah	857	0	857	1164	209	307	26.37
Ysgol Uwchradd St David	385	0	385	725	131	340	46.90

Ysgol Uwchradd Penarlâg	999	218	1216	1145	195	-71	-6.20
CYFANSWM	**2581**	**218**	**2798**	**3631**		**833**	**27.53**

Potensial Datblygiad Preswyl a Statws Cynllunio Safle Datblygiad Defnydd Cymysg Porth y Gogledd

Cyd-destun

Mae safle defnydd cymysg Porth y Gogledd yn cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiad yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint a fabwysiadwyd. Ymhlith y cymysgedd o ddefnyddiau a geisir gan y Cynllun Datblygu Unedol, mae disgwyliad y bydd "o leiaf" 650 o gartrefi yn cael eu hadeiladu fel rhan o'r datblygiad cyffredinol. Mae'r safle hefyd yn rhan allweddol o'r Ardal Fenter ddynodedig yn yr ardal hon, sydd â'r brif nod o ddarparu tua 7,000 o swyddi newydd i'r ardal.

Mae'r safle o fewn dwy berchenogaeth fasnachol ac er gwaethaf yr angen i ddatblygu'r safle mewn modd cynaliadwy yn ei gyfanrwydd, mae'r ddau berchennog (Praxis a Pochin Goodman) wedi cynllunio ar wahân ar gyfer datblygu eu rhannau hwy o'r safle. Mae'r ddau wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol ac mae gofyn bellach iddynt gyflwyno cynigion mwy manwl i sicrhau caniatâd ar gyfer pob cam o ddatblygiad eu safleoedd.

Mae safle Porth y Gogledd hefyd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol yn yr isadeiledd mewn perthynas â gwelliannau i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol yn Nyfrdwy, yn ogystal ag isadeiledd ffyrdd mewnol sylweddol i agor y safle a'i gysylltu â'r rhwydwaith priffyrdd lleol a chenedlaethol sydd eisoes yn bodoli. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddwy elfen o'r ddarpariaeth isadeiledd gyda'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd sydd ar y gweill ar hyn o bryd, ac mae'r gwaith ffordd wedi'i gynllunio i ddechrau o fewn 12 mis, gan gymryd hyd at 5 mlynedd i'w gwblhau.

Graddfa'r Datblygiad Preswyl arfaethedig/a ganiateir a llinell amser

Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i Praxis ar gyfer y rhan ogleddol o'r safle yn Ebrill 2012. Fel rhan o'u cais, maent wedi nodi bwriad i adeiladu hyd at 725 o gartrefi fesul cam dros gyfnod o 8 mlynedd, i ddechrau 12 mis ar ôl rhoi'r caniatâd. Cadarnhaodd y gymeradwyaeth ddilynol o'u cynllun meistr a'r briff datblygu gan y Cyngor yn Nhachwedd 2013 y cwantwm hwn o ddatblygiad preswyl. O ystyried nad oes unrhyw geisiadau preswyl â materion a gadwyd yn ôl wedi cael eu cyflwyno neu eu cymeradwyo eto, nid yw'r cynllun graddol hwn wedi cychwyn eto.

Cafodd Pochin Goodman ganiatâd amlinellol ym mis Ebrill 2014 ar gyfer y rhan ddeheuol o'r safle yn eu perchnogaeth. Fel rhan o'u cynnig maent wedi datgan bwriad i gyflwyno "tua 600 o anheddau ar gyfradd o 50 wedi'u cwblhau y flwyddyn dros gyfnod o 12 mlynedd". Fodd bynnag, wrth ganiatáu y caniatâd amlinellol hwnnw, oherwydd pryderon ynglŷn â capasiti'r fynedfa bresennol i'w safle oddi ar Welsh Road, roedd Pochin Goodman wedi'u cyfyngu i ddatblygiad o 290 o gartrefi ar

y mwyaf fel rhan o'r caniatâd amlinellol a roddwyd gan y Cyngor, o'r fynediad hon. Mae'r caniatâd yn caniatáu 70 annedd arall oddi ar fynedfa ar wahân oddi ar Farm Road. Er mwyn cyrraedd y 600 uned a geisiwyd yn wreiddiol, byddent yn gorfod gwneud cais eto i gyfiawnhau'r tai ychwanegol, ac hefyd angen cyflwyno a chael caniatâd i geisiadau materion a gadwyd yn ôl er mwyn caniatáu datblygiad preswyl i gychwyn ar y gyfradd a nodasant.

Mae'r ddau ddatblygiad hefyd yn dibynnu ar ddechrau isadeiledd y ffyrdd, ac yn y pen draw, bydd uchafswm cwantwm uchafswm y datblygiad preswyl yn cael ei gyfyngu gan oblygiadau ffactorau isadeiledd, ffisegol ac amgylcheddol.

Crynodeb o linellau amser

1. Gwaith Amddiffyn rhag Llifogydd - ar y safle nawr, cwblhau ganol 2015
2. Isadeiledd ffyrdd - cyflwyno cais cynllunio o fewn y 6 mis nesaf; dechrau cam cyntaf o fewn 6 mis o roi'r caniatâd; felly dechrau Chwefror 2016 gyda rhaglen ddatblygu 5 mlynedd - cwblhau gwanwyn 2021.
3. Datblygiad preswyl Praxis - Dim caniatâd cynllunio manwl yn Chwefror 2015; bwriadu datblygu 725 o anheddau dros gynllun graddol 8 mlynedd. Gan dybio y bydd yr unedau preswyl yn dechrau ganol 2016; byddai cwblhau'r holl unedau preswyl yn unol â'r cynllun graddol yn digwydd yn 2024.
4. Datblygiad preswyl Pochin Goodman - Dim caniatâd cynllunio manwl yn Chwefror 2015; cynnig datblygu 600 o dai dros 12 mlynedd wedi'i gapio ar hyn o bryd i uchafswm o 360 (290 + 70) o anheddau. Os dechreuir yn 2016, tybir y byddai cwblhau'r uchafswm o 600 annedd a geisir (os caniateir yn y pen draw) yn digwydd yn 2028, yn seiliedig ar y gyfradd cwblhau a nodir gan y datblygwyr.

Nid oes unrhyw gynigion datblygu preswyl eraill sylweddol yn yr ardal hon wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Unedol. Mae'r cynllun hwn yn dod i ben ar ddiwedd 2015 ac er bod gwaith ar y gweill ar Gynllun Datblygu Lleol newydd, ni fydd hwn yn cael ei fabwysiadu tan 2018/19 ar y cynharaf.

Ansawdd a Safonau Addysg

Arolygiadau ESTYN

Cafodd Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry ei arolygiad diwethaf gan ESTYN yn Ionawr 2011, mae adroddiad llawn ESTYN ar gael ar:

http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/6644019

Mae rhagor o wybodaeth ystadegol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar y ddolen ganlynol:-

http://mylocalschool.wales.gov.uk/

Ar hyn o bryd, mae'r Ysgol wedi'i chategoreiddio fel a ganlyn dan y system genedlaethol:-

- Grŵp Safonau - 4
- Capasiti Gwella – C
- Categori cefnogaeth - Oren

Tabl 6 - Crynodeb o'r Data: Ysgolion Uwchradd lleol (Ion 2014) Ffynhonnell: Fy ysgol leol:

	Ysgol Uwchradd John Summers	**Ysgol Uwchradd Cei Connah**	**Ysgol Uwchradd Penarlâg**	**Ysgol Uwchradd St David, Saltney**
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Blwyddyn: 2014)	374	932	1,152	514
Prydau Ysgol am Ddim – cyfartaledd 3 blynedd (Blwyddyn: 2014)	31.9%	14.7%	7.5%	14.7%
Cymhareb Disgybl Athro (Blwyddyn: 2014)	12.9	17.4	16.7	14.9
% Presenoldeb yn ystod y flwyddyn (Blwyddyn: 2014)	92%	92.8%	95.2%	92.7%
Cyllideb ysgol fesul disgybl (Blwyddyn: 2015)	£4,794	£3,936	£3,870	£4,301
Categori cefnogaeth (Blwyddyn: 2014)	Oren	Melyn	Melyn	Melyn
Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn: 2014)	78.1%	86.4%	90.6%	80.3%
% y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (Cyfnod Allweddol 4) (Blwyddyn: 2014)	28.1%	57.1%	72.4%	57.3%
Sgôr pwyntiau wedi'i gapio cyfartalog (Cyfnod Allweddol 4) (Blwyddyn: 2014)	323	351	360	359

Tabl 7 - Cymhariaeth o Ddata Categori Ysgolion Uwchradd Llywodraeth Cymru a GwE (ardal leol) 2014

Ysgol	Categori Data LlC*	GwE (Gallu i wella)	Categori Cefnogaeth
Ysgol Uwchradd John Summers	4 (75)	C	Oren
Ysgol Uwchradd Cei Connah	3 (58)	B	Melyn
Ysgol Uwchradd Penarlâg	2 (42)	A	Melyn
Saltney, Ysgol Uwchradd St David	2 (50)	B	Melyn

* Mae amrediad o set ddata yn rhoi cyfanswm sgôr ar gyfer pob ysgol (mewn cromfachau). Yna bydd y rhain yn cael eu rhoi mewn categorïau fel yr isod:

1=21-36.5, 2=37-52.5, 3=53-68, 4=68.5-84

Tabl 8 - Canlyniadau a gyflawnwyd gan Ddysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim 2014

Ysgol	**Trothwy Lefel 1**	**Trothwy Lefel 2**	**Sgôr pwyntiau wedi'i gapio**
Ysgol Uwchradd John Summers	92.9%	7.1%	286.3
Ysgol Uwchradd Cei Connah	95.5%	40.9%	325.0
Ysgol Uwchradd Penarlâg	100%	46.2%	339.2
Saltney, Ysgol Uwchradd St David	72.7%	18.2%	286.4

Tabl 9 - Ôl-16 - Canlyniadau Consortiwm 2012-2014

	L3			**SPC**		
	2014	**2013**	**2012**	**2014**	**2013**	**2012**

Consortiwm Glannau Dyfrdwy	89%	91%	91%	655	755	563
Sir y Fflint	97%	96%	97%	750	750	700
Cymru	97%	96%	97%	807	805	773

* Mae'r holl ddata wedi'i allosod o ffurflenni Crynodeb o Berfformiad Ysgolion Uwchradd Llywodraeth Cymru.

Diffiniadau

L3 *- yw Trothwy Lefel 3. Dyma'r canran o ddysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer dau neu fwy o gyrsiau Safon Uwch neu gyfwerth a enillodd dwy neu fwy o raddau pasio.*

APS *- Dyma'r Sgôr Pwyntiau Cyfartalog. (system i roi pwyntiau i bob gradd a dderbynnir ac yna cyfrifo'r cyfartaledd ar draws y garfan).*

Canlyniadau Ôl-16

Mae Tabl 9 yn dangos bod perfformiad trothwy L3 ar gyfer y consortiwm wedi bod islaw'r cyfartaledd yn Sir y Fflint a'r cyfartaledd cenedlaethol am 3 blynedd yn olynol. Yn ogystal, mae sgôr pwyntiau cyfartalog yn y consortiwm wedi bod yn is na'r ffigur cenedlaethol am 3 blynedd yn olynol ac yn is na'r cyfartaledd yn Sir y Fflint am 2 o'r 3 blynedd diwethaf.

Mae darpariaeth ôl-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers yn cael ei darparu ar hyn o bryd fel rhan o gonsortiwm lleol. Mae'r trefniant hwn yn golygu teithio rhwng safleoedd ysgolion ac yn cyfyngu ar hyblygrwydd cynllunio'r cwricwlwm. Bydd canolbwyntio darpariaeth i un safle yn cael gwared ar y cyfyngiad hwn ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y cwricwlwm a gynigir. Bydd y cynnig felly yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod dysgwyr yn cael ystod briodol o ddewisiadau cyrsiau yn y ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria er mwyn bodloni'r Mesur Dysgu a Sgiliau a galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ei adnoddau addysgu ar gyflwyno'r cwricwlwm 11-16.

Gan na fydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yn weithredol tan fis Medi 2016, nid yw wedi cael arolwg gan Estyn eto. Unwaith bydd y cyfleuster yn weithredol, bydd arolwg yn cael ei drefnu yn unol â chylch arolygu Estyn.

Mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu ôl-16 i ddisgyblion Ysgol Uwchradd John Summers

Os cytunir ar y cynigion bydd gwell cyfleoedd ar gyfer bodloni anghenion dysgwyr ôl-16 yn effeithiol. Bydd y ganolfan dysgu ôl-16 yn darparu sylfaen gadarn a chefnogol

ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr ôl-16, o fewn cyfleuster addysgol addas at y diben, modern.

Bydd darparu ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn y ganolfan ddysgu ganolog yn gwella cyfleoedd dysgu gan y bydd hyblygrwydd y cwricwlwm yn cynyddu. Yn ogystal, mae potensial i ddatblygu cynnig cwricwlwm ehangach a gwella cyrhaeddiad dysgwyr i fod yn fwy unol â hynny ar draws Sir y Fflint a Chymru. Bydd hefyd yn lleihau cyfraddau dysgwyr sy'n gadael cyrsiau, yn gwneud y mwyaf o amser y cwricwlwm drwy gael gwared ar yr angen i deithio yn ystod y dydd a hefyd darparu gwell cyfleoedd i gyd-fynd â chyrsiau academaidd a galwedigaethol o fewn y cynnig a wneir i ddysgwyr.

Yn y tymor hwy, gall y ganolfan ddysgu ôl-16 o bosibl gynyddu nifer y dysgwyr sy'n cofrestru wrth i gyfleoedd cwricwlwm a safonau cyrhaeddiad gynyddu.

Effaith bosibl y cynigion ar Ddysgwyr 11-16

Mae Tabl 6 yn dangos tystiolaeth bod Ysgol Uwchradd John Summers, wrth gael y gost uchaf fesul disgybl a'r gymhareb disgybl-athro isaf, hefyd â'r gyfradd bresenoldeb isaf a'r cyfraddau cyrhaeddiad isaf o'i chymharu'n uniongyrchol â'i hysgolion cyfagos. Yn ogystal, yn 2014, roedd Ysgol Uwchradd John Summers yng nghategori data Llywodraeth Cymru 4, yr unig ysgol leol yn y categori hwn.

Mae natur gynhwysol yr ysgol yn cael ei chydnabod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae arfer cynhwysol llwyddiannus hefyd yn amlwg mewn ysgolion lleol eraill. Mae gwybodaeth am berfformiad cyfredol fel y gwelir yn nhabl 8 yn dangos bod ysgolion eraill cyfagos yn cael canlyniadau cyffredinol gwell ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd canlyniadau data Ysgol Uwchradd John Summers ymysg yr isaf yng Nghymru yn y model categoreiddio ysgolion cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi nodi'r ysgol yn Oren, (tabl 7) â'r diffiniad nad yw perfformiad yr ysgol yn gwella'n ddigon cyflym ac mae angen ymyrraeth a chefnogaeth gydag amser cyfyngedig. Pe bai'r ysgol yn cau, byddai dysgwyr felly'n manteisio ar addysg mewn ysgolion sydd wedi cyflawni gwell canlyniadau.

Arweinyddiaeth Ysgol

Oherwydd ymddeoliad y Pennaeth blaenorol 31 Rhagfyr 2014, mae Ysgol Uwchradd John Summers ar hyn o bryd yn gweithredu o dan arweiniad Pennaeth Dros Dro.

Mae'r Awdurdod yn hyderus ym mhrofiad a gallu'r Pennaeth Dros Dro i arwain yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Mae data ar benodiadau Penaethiaid diweddar yn awgrymu nad oes sicrwydd y byddai ysgol maint John Summers yn denu ymgeiswyr addas a phriodol ar gyfer swydd y Pennaeth, pe bai hon yn cael ei hysbysebu.

Effaith cau darpariaeth ôl-16 ac 11-16 ar ysgolion cyfagos ac ar draws yr Awdurdod Lleol

Ysgolion Consortiwm Gogledd Sir y Fflint

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau Cau Ysgol Uwchradd John Summers
Ysgol Uwchradd Treffynnon (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Mae'r hysbysiad statudol i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16 wedi'i gwblhau – darperir y cynnig ôl-16 o fis Medi 2016 gan y ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Treffynnon nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth 11-16 bresennol a pharhaus.
Ysgol Uwchradd Cei Connah (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Mae'r hysbysiad statudol i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16 wedi'i gwblhau – darperir y cynnig ôl-16 o fis Medi 2016 gan y ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria.	Bydd y cynnig yn effeithio ar Gei Connah fwyaf gan mai dyma'r lleoliad tebygol ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion Ysgol Uwchradd John Summers pe bai'n cau. Felly, byddai Ysgol Uwchradd Cei Connah yn cael ei dynodi fel Ysgol Derbyn. Fodd bynnag rhagwelir y bydd gan yr ysgol fwy na 300 o leoedd heb eu llenwi ar ôl Medi 2016, felly byddai'n gallu darparu ar gyfer disgyblion a ddadleolir gan y cynnig
Ysgol Uwchradd St David (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Mae Awdurdod Lleol yn cynnal cyfnod ymgynghori ffurfiol i newid ystod oedran St David o 11-18 i 11-16 er mwyn cyd-fynd â'r ganolfan ôl-16 erbyn mis Medi 2016. Darperir y cynnig ôl-16 o fis Medi 2016 gan y ganolfan ôl-16 newydd yng Ngholeg Cambria.	Gallai'r cynnig gynyddu niferoedd disgyblion yn Ysgol Uwchradd St David drwy ddewis rhieni. Rhagwelir y bydd gan yr ysgol fwy na 300 o leoedd heb eu llenwi ar ôl Medi 2016, felly byddai'n gallu darparu ar gyfer disgyblion a ddadleolir

		gan y cynnig. Fodd bynnag, gall nifer y disgyblion o John Summers fod yn gyfyngedig o ystyried lleoliad daearyddol yr ysgol.

Ysgolion 11-18 yn Sir y Fflint

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau Cau Ysgol Uwchradd John Summers
Ysgol Uwchradd Penarlâg (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei darpariaeth dysgu ôl-16 ei hun. Gall rhai dysgwyr ôl-16 Ysgol Uwchradd John Summers ddewis defnyddio'r cyfleuster hwn gan gael effaith bosibl ar niferoedd yn yr ysgol.	Ysgol Uwchradd Penarlâg yw'r ysgol agosaf yn ddaearyddol i Ysgol Uwchradd John Summers, fodd bynnag, mae gormodedd wedi cael eu derbyn yno ar hyn o bryd oherwydd dewis y rhieni. Gall disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd yng nghonsortiwm cyfredol John Summers gael lle ym Mhenarlâg yn y dyfodol lle maent yn gymwys o dan y gweithdrefnau derbyn yn seiliedig ar yr ysgol agosaf. Mae digon o leoedd ar gael mewn ysgolion eraill yn Sir y Fflint i ddarparu ar gyfer unrhyw ddysgwyr y mae eu rhieni yn mynegi dewis ar gyfer Penarlâg, ond na ellid bodloni eu dewis unwaith y bydd yr ysgol yn cyrraedd y nifer derbyn pob blwyddyn.
Ysgol Alun, yr Wyddgrug (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei darpariaeth dysgu ôl-16 ei hun. O ystyried ei lleoliad daearyddol nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Alun yr Wyddgrug nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth 11-16 bresennol a pharhaus.
Ysgol Maes Garmon (Ysgol	Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei darpariaeth dysgu ôl-16 ei hun, ac	Ni fyddem yn rhagweld dysgwyr sydd wedi bod yn

Gymunedol, cyfrwng Cymraeg)	mae'r cwricwlwm cyfan yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddem yn rhagweld dysgwyr sydd wedi bod yn rhan o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn symud i ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg mewn niferoedd sylweddol.	rhan o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn symud i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn niferoedd sylweddol. Nid yw'r cynigion felly yn effeithio ar y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn datblygu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Shotton, gan wneud hyn yn fwy hygyrch i rieni sy'n dewis y llwybr hwn yn y dyfodol.
Ysgol Castell Alun, yr Hob (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol ei darpariaeth dysgu ôl-16 ei hun. O ystyried ei lleoliad daearyddol nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried lleoliad daearyddol yr Ysgol Uwchradd hon, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.
Ysgol Arbenigol Ysgol Maes Hyfryd	O ystyried y ddarpariaeth ddysgu arbenigol yn yr ysgol hon, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried y ddarpariaeth ddysgu arbenigol yn yr ysgol hon, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.

Trefniadau Consortiwm Eraill

Mae cyrff llywodraethu Ysgol Uwchradd y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn wedi bod yn cydweithio i ddarparu cyfleoedd ôl-16 i'w dysgwyr ers 2013.

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau Cau Ysgol Uwchradd John Summers
Ysgol Uwchradd y Fflint (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd y Fflint nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd y Fflint nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn (ysgol wirfoddol),	O ystyried ffydd a lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.	O ystyried ffydd a lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.

cyfrwng Saesneg		

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth hon bob blwyddyn yn unol â'i Strategaeth Moderneiddio. Mae'r adolygiad blynyddol yn seiliedig ar ganlyniadau dysgwyr a gallu'r bartneriaeth i fodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau o'r dyraniad cyllid ôl-16 a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ysgolion 11-16 yn Sir y Fflint

Enw'r Ysgol	Goblygiadau newid ystod oedran Ôl-16	Goblygiadau Cau Ysgol Uwchradd John Summers
Ysgol Uwchradd Elfed (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Nid oes unrhyw recriwtio parhaus o ran dysgwyr ôl-16 yn yr ysgol hon. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw oblygiad uniongyrchol o'r newid hwn.	Os bydd y cynnig yn cyfyngu ar hyblygrwydd rhieni yn ardal Bwcle i ddewis Ysgol Uwchradd Penarlâg, mae digon o gapasiti yn Ysgol Uwchradd Elfed i ddarparu ar gyfer dysgwyr ychwanegol.
Ysgol Uwchradd Argoed (Ysgol Gymunedol, cyfrwng Saesneg)	Nid oes unrhyw recriwtio parhaus o ran dysgwyr ôl-16 yn yr ysgol hon. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw oblygiad uniongyrchol o'r newid hwn.	O ystyried lleoliad daearyddol Ysgol Uwchradd Argoed, nid yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar ddarpariaeth bresennol.

Effaith debygol y cynigion ar staff a gyflogir yn Ysgol Uwchradd John Summers

Effeithiau cael gwared ar ddarpariaeth ôl-16

Penodir gweithiwr proffesiynol arweiniol i reoli'r ddarpariaeth ôl-16 yng Ngoleg Cambria, rhagwelir y bydd y recriwtio yn digwydd yn ystod haf 2015.

Bydd y gyfran 1af o benodiadau staffio yn cynnwys canfod rolau cwricwlwm, i ddechrau, bydd y rolau hyn yn clustnodi staff ar draws y consortia, gan gynnwys Ysgol Uwchradd John Summers, gyda phrofiad ôl-16 yn narpariaeth ôl-16 cyfredol coleg ac ysgolion partneriaeth.

Pe na fyddai'r rolau cwricwlwm a nodwyd yn cael eu llenwi gan y weithdrefn gyfran 1af, yna bydd swyddi heb eu llenwi ar agor i'r farchnad gyflogaeth.

Os bydd pobl yn cael eu dadleoli o ganlyniad i'r cynnig, yna bydd y polisi newid sefydliad a dileu swyddi perthnasol yn cael ei gymhwyso, a bydd yn cael ei gymhwyso os yw'n ofynnol gan gyrff llywodraethu'r ysgolion partneriaeth

Gall y cyfnod pontio ei hun achosi rhywfaint o ansicrwydd ar gyfer staff sy'n gweithio yn Ysgol Uwchradd John Summers, a bydd yr Awdurdod Lleol a'r Ysgol yn gwneud pob ymdrech i gefnogi'r staff hyn yn ystod y broses newid.

Rhagwelir os bydd y cynigion yn cael eu derbyn, bydd manteision i staff, gan gynnwys mwy o gyfle i ddatblygu arbenigedd a gyrfa, bydd yn lleihau cystadleuaeth rhwng y sefydliadau addysg, yn lleihau baich galw'r cwricwlwm i ganolbwyntio adnoddau ar ddarpariaeth dysgu 11-16 yn Ysgol Uwchradd John Summers.

Effeithiau Cau Ysgol

Os bydd staff yn cael eu dadleoli o ganlyniad i'r cynnig, yna bydd y polisi newid sefydliad a dileu swyddi perthnasol yn cael ei gymhwyso, a bydd yn cael ei gymhwyso gan gyrff llywodraethu'r Ysgol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i gynorthwyo staff a ddadleolir i ddod o hyd i swyddi addas o fewn y portffolio ysgolion.

Effaith debygol y cynigion ar y cymunedau lleol

Ceisir barn y bobl ifanc drwy'r broses ymgynghori, bydd gweithdy ymgynghori ar wahân yn cael ei weinyddu trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid a bydd safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu casglu a'u hadrodd yn yr adroddiad ymgynghori i'r gweinidog ac i Gabinet Sir y Fflint.

Er mai'r cynnig yw cau Ysgol Uwchradd John Summers fesul cam, gan ddechrau gyda darpariaeth ôl-16, Medi 2016 a darpariaeth 11-16, Medi 2017.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r campws hefyd yn cynnwys y ddarpariaeth ganlynol ar y safle:-

- Ysgol gynradd 3-11
- Uned Cyfeirio Disgyblion CA2 - Gwasanaeth Cynhwysiant
- Gwasanaethau Ieuenctid a Chymunedol
- Swyddfa Cymunedau yn Gyntaf (Cyngor Sir y Fflint)
- Llyfrgell Gymunedol (Cyngor Sir y Fflint) - Fodd bynnag, mae gwerthusiadau opsiynau ar gyfer y llyfrgell gyfredol yn rhan o broses ymgynghori ar wahân y mae'r Cyngor yn ei chynnal gyda'r gymuned.

Mae gan yr ysgol ganran uchel o brydau ysgol am ddim. Mae data o mylocalschool.com yn cofnodi hyn fel 31.9% dros gyfartaledd 3 blynedd yn 2014, sef y ganran uchaf ymhlith ysgolion uwchradd Sir y Fflint. Fodd bynnag, mae

gwybodaeth am berfformiad cyfredol yn dangos bod ysgolion eraill cyfagos yn cael canlyniadau cyffredinol gwell ar gyfer dysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Felly barn y Cyngor yw na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae'r ardaloedd canlynol sy'n gwasanaethu Ysgol Uwchradd Cei Connah ac Ysgol Uwchradd John Summers wedi'u nodi'n ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru:-

- Cei Connah – Canolog 2
- Cei Connah – Golftyn 4
- Queensferry
- Sealand 2
- Shotton Uwch 1
- Shotton Uwch 3

Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardaloedd fel a ganlyn:

- **Blaenoriaeth 1 -** Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a chefnogaeth i gael gwaith (oedran 25+)
- **Blaenoriaeth 2 -** Lleihau diweithdra ieuenctid ac ymddieithrio (oedran 16-24)
- **Blaenoriaeth 3 –** Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith (oedran 25+) Lleihau diweithdra ymhlith ieuenctid ac ymddieithrio (oedran 16-24)
- **Blaenoriaeth 4** - Cynhwysiant Ariannol - Gwella gallu ariannol, rheoli dyled a chynyddu incwm
- **Blaenoriaeth 5** - Cefnogi Mentrau a Bancio Amser / Adeiladu Cyfalaf Cymdeithasol
- **Blaenoriaeth 6 –** Lleihau'r risg o droseddwyr ifanc
- **Blaenoriaeth 7 -** Cefnogi Mentrau a Bancio Amser
- **Blaenoriaeth 8** – CAB Sir y Fflint a Gwasanaethau Cyngor Ymgysylltu ac Estyn Allan Clwstwr y Dwyrain
- **Blaenoriaeth 9** – Rhaglen LIFT - Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith (oedran 25+)
- **Blaenoriaeth 10** – Rhaglen LIFT - Lleihau diweithdra ymhlith ieuenctid ac ymddieithrio (oedran 16-24)

Ni effeithir ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn sgil cynnig yr Awdurdod i gau Ysgol Uwchradd John Summers.

Defnydd Cymunedol o Gyfleusterau'r Ysgol yn Ysgol Uwchradd John Summers

Ceir gweithgareddau cymunedol amrywiol a gynhelir yn Ysgol Uwchradd John Summers.

Mae'r Ysgol yn cael ei llogi unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau gosod blodau, dosbarthiadau celf a chrefft siwgr a gwersi Saesneg, Mathemateg a Chymraeg i Oedolion.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Queensferry yn defnyddio cyfleusterau yn John Summers fel yr ystafell TGCh, y gampfa a'r neuadd ar gyfer cyngherddau Nadolig. Gan fod Uned Atgyfeirio Disgyblion CA2 hefyd ar y safle, maent hwy yn defnyddio campfa'r ysgol.

Mae Celfyddydau Cymunedol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol unwaith y mis ac mae tîm Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio'r cyfleusterau ar fore dydd Sadwrn ynghyd â defnyddwyr eraill fel Coginio ar Gyllideb.

Os bydd y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers yn datblygu, bydd yna Ysgol Gynradd a chanolfan gymunedol yn aros ar y safle. Bydd ystafelloedd a chyfleusterau ar gael i'r gymuned ar y safle presennol. Yn ogystal, mae Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy ar draws y ffordd dros y bont gerdded. Felly, mae'n annhebygol yr effeithir yn ormodol ar fynediad i amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol.

Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Llawn Amser

Bydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yng Ngholeg Cambria yn gwbl hygyrch o ran Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r ysgolion uwchradd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae llai na 10 disgybl â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn Ysgol Uwchradd John Summers.

Mae pob ysgol yn Sir y Fflint yn cydymffurfio â dyletswyddau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (2002) ac wedi datblygu darpariaeth i gefnogi disgyblion ag AAA. Mae cyllid ychwanegol gan yr Awdurdod Lleol wedi'i ddirprwyo i ysgolion unigol i gefnogi disgyblion ag anghenion sylweddol a byddai hyn yn cael ei ddyrannu o Ysgol Uwchradd John Summers i'r darparwyr newydd, gan sicrhau bod anghenion yn parhau i gael eu bodloni. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda disgyblion ag AAA, rhieni ac ysgolion i gefnogi trosglwyddo effeithiol i'r amgylchedd dysgu newydd.

Beth yw goblygiadau ariannol y cynigion

Diffiniad o Wariant Cyfalaf *- Gwariant ar asedau anghyfredol (tir ac adeiladau, cerbydau, peiriannau ac offer) â'r bwriad o fod o fudd i gyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol neu wariant sy'n cynyddu capasiti, economi, effeithlonrwydd neu oes ased presennol.*

Diffiniad o Wariant Refeniw *- Y gost o ddydd i ddydd o redeg gwasanaethau'r Cyngor gan gynnwys gwariant ar: staff, cyflenwadau a gwasanaethau, ac atgyweirio a chynnal a chadw asedau. Mae taliadau ar gyfer ad-dalu dyledion, a llog ar ddyledion wedi'u cynnwys hefyd.*

Cynigion ôl-16

Cyfalaf

Mae'r Ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria, Cei Connah yn rhan annatod o raglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif Sir y Fflint sy'n werth £64.2 miliwn.

Cyflwynwyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y Ganolfan Ôl-16 i Lywodraeth Cymru (LlC) gan yr Awdurdod Lleol ym mis Hydref 2014 ac fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, ym mis Ionawr 2015.

Mae cost y prosiect oddeutu £14,626,000, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru 50%, Cyngor Sir y Fflint 25% a Choleg Cambria 25%.

Y prosiect yw adeiladu cyfleuster canolfan ôl-16 newydd yng Nghei Connah ar gyfer 700 o leoedd i wasanaethu rhannau o gonsortiwm ôl-16 Gogledd Sir y Fflint, sef Ysgolion Uwchradd Cei Connah, Treffynnon, John Summers a Dewi Sant.

Refeniw

Mae cyllid ar gyfer addysg ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd drwy grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (LlC).

Caiff y gyllideb ei dyrannu fel un cyfandaliad i bob ysgol gan yr Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod Lleol yn darparu dadansoddiad o'r elfennau y mae disgwyl iddo eu talu. Yr ysgolion sydd i benderfynu ar gostau gwirioneddol darpariaeth ôl-16 ac i sicrhau ei fod yn fforddiadwy o fewn y grant.

Yn achos chweched dosbarth bach, mae hyn yn golygu nad yw'r cyfandaliad yn ddigonol i gefnogi nifer y cyrsiau gofynnol o dan y mesur ac mae'r ysgol yn gorfod sybsideiddio o'i dyraniad fformiwla a dyma'r prif reswm pam y sefydlwyd trefniadau consortiwm ôl-16 hir-sefydlog.

O safbwynt Ysgol Uwchradd John Summers, gan mai'r Cynnig yw cael gwared â'r ddarpariaeth ôl-16, bydd hyn yn arwain at yr ysgol yn methu gallu hawlio'r grant oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddarpariaeth hon. Gan na fydd yr ysgol yn darparu darpariaeth ôl-16 naill ai'n annibynnol neu drwy drefniadau consortiwm, bydd hyn yn cael effaith ariannol niwtral ar ddyraniadau ariannol yr ysgol trwy'r Awdurdod Lleol.

Gan y bydd Coleg Cambria yn llywodraethu'r ganolfan ôl-16, byddant yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Cau Ysgolion

Data Ariannol 2015/2016 (presennol)

Ysgol	Cost Fesul Disgybl
Ysgol Uwchradd John Summers	£5,180
Ysgol Uwchradd Cei Connah	£4,137
Ysgol Uwchradd Penarlâg	£4,074
Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney	£4,519

Sector Uwchradd - Amrywiaeth cost fesul disgybl

	Uchaf	Isaf	Gwahaniaeth
Amrediad presennol (£)	£5,180	£3,895	£1285
Amrediad diwygiedig (£)	£4,953	£3,895	£1058

Y Gymraeg

Diffinnir y categori iaith drwy ddefnyddio Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 023/2007 “diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg”.

Diffinnir Ysgol Uwchradd John Summer fel Cyfrwng Saesneg – cyfrwng Saesneg yn bennaf ond lle ceir dewis i dderbyn 1 neu 2 o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae pob ysgol uwchradd arall yn yr ardal leol (Ysgol Uwchradd Cei Connah, Ysgol Uwchradd Penarlâg ac Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn Saltney), y bydd y disgyblion o bosibl yn dewis eu mynychu petai Ysgol Uwchradd John Summers yn cau, yn cael eu diffinio fel cyfrwng Saesneg (CS) hefyd.

O ystyried dynodiad yr ysgol, nid oes gofyniad o dan y cod trefniadaeth ysgolion i gynnal asesiad effaith ar y Gymraeg.

Ni fydd y cynnig i ddarparu darpariaeth ôl-16 yng Ngholeg Cambria yn newid y dynodiad iaith. Fodd bynnag, mae gan y ganolfan ôl-16 y potensial i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr gael mwy o ddewisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd galw priodol gan fyfyrwyr.

I ategu hyn, mae Coleg Cambria yn cydweithio o fewn y Fforymau Rhanbarthol i gynnal a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel y nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 2014, yn ogystal, maent hefyd yn gysylltiedig â’r prosiect Cefnogwr Dwyieithog gyda Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Cludiant

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i ddarparu cludiant yn unol â'i Bolisi Cludiant.

http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Transport-Eligibility-Criteria-.pdf

Yn gryno, mae'r Awdurdod yn darparu cludiant am ddim ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol, lle mae plentyn sy'n derbyn addysg uwchradd yn byw dros dair milltir o'r ysgol briodol agosaf.

Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion oedran ysgol statudol:-

- lle ystyrir bod y llwybr i'r ysgol yn beryglus gan yr Awdurdod Lleol;
- lle nodir cludiant i ysgol a enwir yn Natganiad o Anghenion Addysgol Arbennig disgybl. Byddai hyn fel arfer ar sail meddygol neu addysgol ac yn cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf eraill a nodwyd yn y polisi hwn;
- lle mae plentyn angen cludiant ar sail feddygol ac nad oes cludiant cyhoeddus addas yn bodoli;

Mae cludiant am ddim hefyd yn cael ei ddarparu i ddisgyblion oedran ysgol statudol:-

- lle mae plentyn â rhieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith yn byw mwy na 2.5 milltir o'r ysgol briodol agosaf;
- i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf o dan y meini prawf a nodir uchod;
- i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf lle mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter. Cynhelir ymgynghoriad ag ysgolion unigol i gadarnhau'r meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion. Gellir gofyn am dystiolaeth addas o ymlyniad at ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedydd neu lythyr gan offeiriad.

O ran disgyblion sy'n bodloni meini prawf milltiroedd, mae manteision logistaidd clir o gael un ganolfan ôl-16 sy'n symud oddi wrth y trefniadau consortia ôl-16 presennol lle mae rhai disgyblion yn cael eu cludo i nifer o safleoedd, i gael mynediad i ystod o gyrsiau. Yn yr ystyr cyfannol, gallai hyn gael ei wrthbwyso gan rai disgyblion sy'n cael mynediad i ystod lawn o gyrsiau yn eu chweched dosbarth lleol ac nad oes angen cludiant arnynt ar hyn o bryd. Felly, rhagwelir y bydd y gost ar gyfer cludiant sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yn niwtral o ran cost gyda'r posibilrwydd o gyflawni arbedion cludiant pan gaiff contractau cludiant eu rhesymoli unwaith y bydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yng Ngholeg Cambria yn weithredol.

O ran darpariaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim presennol yn Ysgol Uwchradd John Summers, mae mwyafrif y disgyblion yn byw o fewn y meini prawf milltiroedd fel y nodir ym mholisi trafnidiaeth Sir y Fflint, felly nid ydynt yn gymwys ar gyfer

cludiant o’r cartref i'r ysgol am ddim. Yr eithriad yw cytundeb hanesyddol bod disgyblion sy'n byw yn ardaloedd Pentre a Sandycroft yn cael cludiant am ddim i ysgol uwchradd John Summers ar y sail bod y llwybr yn beryglus.

Ar hyn o bryd ceir 28 o ddisgyblion o ardaloedd Sandycroft a Phentre sydd â hawl i gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i Ysgol Uwchradd John Summers. Rhoddir tocyn i’r disgyblion cymwys ar gyfer bysiau gwasanaeth cyhoeddus sy'n rhedeg o'r ardal heibio Ysgol Uwchradd John Summers.

O ran y cynnig i gau ysgol uwchradd John Summers, byddai'n ddyletswydd ar unigolion i wneud cais am gludiant o’r cartref i'r ysgol am ddim. Fodd bynnag yn gyffredinol byddai cymhwyster cludiant o’r cartref i’r ysgol am ddim ar gyfer yr ardaloedd canlynol fel a ganlyn:-

Pentre

- Ysgol Uwchradd Cei Connah – Cymwys o dan y meini prawf pellter > 3 milltir
- Ysgol Uwchradd Penarlâg – Ddim yn gymwys o dan y meini prawf pellter < 3 milltir
- Dewi Sant Saltney – Ddim yn gymwys (dim yr ysgol agosaf)

Ardal Sandycroft

- Ysgol Uwchradd Cei Connah – ddim yn gymwys (dim yr ysgol agosaf)
- Ysgol Uwchradd Penarlâg – Ddim yn gymwys o dan y meini prawf pellter < 3 milltir
- Dewi Sant Saltney – cymwys o dan y meini prawf pellter >3 milltir

Ardal Garden City

- Ysgol Uwchradd Cei Connah – Cymwys o dan y meini prawf pellter > 3 milltir
- Ysgol Uwchradd Penarlâg – Ddim yn gymwys o dan y meini prawf pellter < 3 milltir
- Dewi Sant Saltney – Ddim yn gymwys (dim yr ysgol agosaf)

Ardaloedd Shotton/Aston/Queensferry

Mae pellteroedd yn yr ardaloedd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y cyfeiriad:-

- Ysgol Uwchradd Cei Connah – byddai rhai disgyblion yn gymwys o dan y meini prawf pellter > 3 milltir. Byddai rhai yn gymwys lle mae rhieni plentyn yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith yn byw mwy na 2.5 milltir o'r ysgol briodol agosaf (yn gyffredinol North St, i’r de o’r ysgol i gyfeiriad Ewloe)

- Ysgol Uwchradd Penarlâg – Ddim yn gymwys o dan y meini prawf pellter < 3 milltir
- Dewi Sant Saltney – Ddim yn gymwys (dim yr ysgol agosaf)

Os oes yna nifer fawr o ddisgyblion yn methu â chael cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim o rai ardaloedd at eu hysgol briodol agosaf o ganlyniad i'r cynnig ac nad oes unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth priodol, mae'r Awdurdod Lleol yn gallu gweithio gyda darparwyr cludiant lleol i sefydlu a ellid darparu gwasanaethau ychwanegol i wasanaethu'r ysgol leol, fel sy'n digwydd yn Ysgol Uwchradd Cei Connah.

Goblygiadau adeiladau y cynigion

Darpariaeth bresennol – Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry

Cyflwr

Cwblhawyd asesiad cyflwr gan syrfëwr ym Mawrth 2012, mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn dosbarthu cyflwr yn ei bortffolio ysgol yn ôl y graddau canlynol:-

Graddfa Cyflwr	Disgrifiad
A	Da – Perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon.
B	Boddhaol - Perfformio fel y bwriadwyd ond yn dangos ychydig o ddirywiad.
C	Gwael - Arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithio fel y bwriadwyd.
D	Gwael - Disgwyliad oes wedi dod i ben a/neu risg difrifol o fethiant ar fin digwydd.

Roedd Ysgol Uwchradd John Summers yn ysgol cyflwr B

Cymharu ag ysgolion cyfagos:-

Enw'r Ysgol	Dyddiad Arolwg Cyflwr	Graddfa Cyflwr	Disgrifiad o'r Cyflwr
Ysgol uwchradd Cei Connah	04/03/2012	B	Boddhaol - perfformio fel y bwriadwyd ond yn dangos ychydig o ddirywiad
Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney	23/02/2012	B	Boddhaol - perfformio fel y bwriadwyd ond yn

			dangos ychydig o ddirywiad
Ysgol Uwchradd Penarlâg	08/03/2012	B	Boddhaol - perfformio fel y bwriadwyd ond yn dangos ychydig o ddirywiad

Addasrwydd

O ran addasrwydd y ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd John Summers, mae'r asesiad addasrwydd (addasrwydd gradd B: Boddhaol: perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai ardaloedd) yn cymharu'r ysgol yn erbyn y canllawiau bwletin adeilad perthnasol; mae hyn wedi amlygu'r diffygion canlynol:

- Diffyg yn y ciwbiclau toiled bechgyn – angen 4 arall
- Diffyg o 186 o fetrau sgwâr o ofod cylchrediad
- Diffyg gofod ar gyfer gweinyddu i staff
- Diffyg lle storio ar gyfer adnoddau dysgu
- Mae'r ystafell dechnoleg yn is na'r addasrwydd gofynnol
- Diffyg ystafelloedd cerddoriaeth – angen 2 a'r ystafelloedd presennol heb system awyru
- Ystafelloedd dosbarth cyffredinol yn syrthio o dan y gofyniad lleiaf
- Mae 4 gofod TGCh islaw'r gofyniad lleiaf
- Dim neuadd chwaraeon ac 1 gampfa– mae myfyrwyr yn defnyddio Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy sydd wedi ei lleoli ar draws ffordd fawr brysur dros bont droed
- Diffyg lle yn y meysydd parcio ar y safle – yn brin o le i 16 cerbyd
- Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion addasrwydd gofynnol o ran materion anabledd

Mae gan ysgolion eraill a allai o bosibl fod yn ysgolion amgen ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Uwchradd John Summers y materion addasrwydd canlynol:-

Enw'r Ysgol	Diffygion Addasrwydd
Ysgol Uwchradd Cei Connah Categori addasrwydd B Boddhaol: perfformio fel y bwriadwyd ond nid yw'n cefnogi'r	9/12/2009 Arolwg EC Harris • Diffyg lle adnoddau AAA penodol • Diffyg ciwbiclau toiled disgyblion – angen 8 ar gyfer merched, 19 ar gyfer bechgyn i ddiwallu gofynion sylfaenol • Diffyg mewn nifer o giwbiclau toiled staff – 2 fenyw, 3 gwryw • Nid oes lle penodol ar gyfer storio eitemau personol disgyblion • Dim neuadd ysgol – ysgol yn defnyddio neuadd ddrama, theatr a chwaraeon

cwricwlwm mewn rhai meysydd	• 2 ystafell gelf yn is na'r gofynion lleiaf • Ystafelloedd technoleg yn is na'r gofynion lleiaf • 2 allan o 27 o ystafelloedd dosbarth islaw'r maint lleiaf • Llyfrgell ysgol yn llai na'r maint gofynnol • Mae gofod TGCh yn llai na'r maint gofynnol • Diffyg lle yn y meysydd parcio – yn brin o le i 55 cerbyd • Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion addasrwydd gofynnol o ran materion anabledd
Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney Categori addasrwydd B Boddhaol: perfformio fel y bwriadwyd ond nid yw'n cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai meysydd	Arolwg Cyngor Sir y Fflint 29/02/2008 • Dim ystafell gyfweld o fewn ardal derbynfa ddiogel • Dim lle penodol ar gyfer cyfleuster AAA • Diffyg yn nhoiledau'r bechgyn – 1 ciwbicl • Nid oes lle penodol ar gyfer storio eitemau personol disgyblion • 4 allan o 5 o labordai gwyddoniaeth yn llai na'r maint gofynnol • Ystafelloedd celf yn llai na'r maint gofynnol • Ystafell technoleg yn llai na'r maint gofynnol • Diffyg yn ystafelloedd ymarfer cerddoriaeth • Ystafelloedd TGCh yn llai na'r maint gofynnol • Llyfrgell yn llai na'r maint gofynnol • 13 allan o 18 o ystafelloedd dosbarth yn llai na'r maint gofynnol • Diffyg mannau parcio – yn brin o le i 20 cerbyd
Ysgol Uwchradd Penarlâg Categori addasrwydd A Da: Cyfleusterau yn addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles mewn ysgolion	16/12/2009 Arolwg EC Harris • Derbynfa yn anniogel • Dim ystafelloedd cyfweld o fewn ardal derbynfa ddiogel • Dim ardal adnodd AAA penodedig • Diffyg yn nhoiledau'r bechgyn – 8 ciwbicl • Diffyg sylweddol o le storio ar gyfer adnoddau dysgu • 6 allan o 9 o labordai gwyddoniaeth yn llai na'r maint gofynnol • 3 allan o 4 o ystafelloedd celf yn llai na'r maint gofynnol • Ystafell technoleg bwyd yn llai na'r maint gofynnol • 17 allan o 35 o ystafelloedd dosbarth yn llai na'r maint gofynnol • Diffyg mannau parcio – yn brin o le i 53 cerbyd

Er nad ydym yn achub y blaen ar y penderfyniad ynglŷn â chynnig, mae'r Awdurdod yn asesu lefel y gwaith angenrheidiol i fynd i'r afael ag addasrwydd, digonolrwydd a materion cyflwr ysgolion cyfagos. Mae'r Awdurdod yn cynnal astudiaeth dichonoldeb o Ysgolion Uwchradd Dewi Sant a Chei Connah gan fod yr ysgolion hyn yn fwy

tebygol o dderbyn plant a ddadleolwyd o ganlyniad i'r posibilrwydd o gau Ysgol Uwchradd John Summers, gyda golwg ar gynllun cyfalaf fydd yn cael ei gyflwyno i'w gynnwys o bosibl yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif neu Raglen Gyfalaf yr Awdurdod yn achos Ysgol Uwchradd Penarlâg.

Capasiti

Os bydd cynigion yn cael eu cymeradwyo, yr effaith ar Ysgol Uwchradd John Summers o ran mesur capasiti ysgolion yng Nghymru fyddai bod y capasiti ysgol yn cynyddu o 565 i 597 erbyn Medi 2016.

Yn seiliedig ar ddata meincnodi cenedlaethol (2014) mae gan Sir y Fflint 2113 o leoedd gwag o fewn y sector uwchradd. Bydd y cynnig i gau'r ysgol erbyn Medi 2017 yn arwain at ostyngiad o leoedd gwag yn y sector hwn i 1572; mae hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn capasiti ysgolion uwchradd sy'n gysylltiedig â'r prosiect trawsnewid ôl-16 fydd yn gweld eu lleoedd gwag yn codi o ganlyniad i golli eu myfyrwyr ôl-16 oed.

Y Ganolfan Ôl-16 Arfaethedig

Mae'r ganolfan newydd ôl-16 ar hyn o bryd yn y cyfnod adeiladu a bydd yn costio oddeutu £14miliwn.

Gan ddarparu cyfleuster dysgu ysbrydoledig i 700 o fyfyrwyr mewn lleoliad canolog rhwng campws Glannau Dyfrdwy Coleg Cambria ac Ysgol Uwchradd Cei Connah, mae'r adeilad yn cynnwys cyfleusterau Celfyddydau Perfformio, Cerddoriaeth, Gwyddoniaeth a'r Celfyddydau Creadigol arbenigol yn ogystal ag ystafelloedd dosbarth addysgu cyffredinol a mannau astudio cymdeithasol a phreifat. Ar gael o fynedfa sydd newydd ei ffurfio o Lôn Golftyn, mae'r cynllun yn cynnwys maes parcio i staff ac ymwelwyr ar gyfer y ganolfan newydd yn ogystal â man parcio bysiau i wasanaethu campws ehangach Coleg Cambria.

Bydd yr adeilad hynod gynaliadwy yn hyrwyddo'r defnydd o olau dydd naturiol ac awyru tra hefyd yn ymgorffori nifer o dechnolegau cynaliadwy gan gynnwys pympiau gwres yr awyr, celloedd ffotofoltäig a phaneli dŵr poeth solar.

- Bydd yr adeilad yn cyrraedd safon ysgolion yr 21ain Ganrif.
- Bydd cyflwr yr adeilad yn safon A.
- Gan y bydd yn gyfleuster pwrpasol, bydd yn cael ei adeiladu o fewn Canllawiau Bwletin Adeiladu, felly ni fydd unrhyw faterion addasrwydd.
- Bydd yr adeilad yn rhagoriaeth BREEAM a graddfa ynni A

- Bydd yna fynediad di-dor i ddarpariaeth TGCh a Wi-Fi o fewn y cyfleuster newydd.

Mae'r ganolfan ôl-16 arfaethedig wedi'i heithrio o asesiad capasiti Llywodraeth Cymru.

Tir ac adeiladau

Ar hyn o bryd mae campws Queensferry yn cwmpasu ysgol gynradd, ysgol uwchradd, llyfrgell, darparu clwb ieuenctid, uned cyfeirio disgyblion a gofod swyddfa Cymunedau yn gyntaf, hefyd yn gysylltiedig â'r Campws ehangach mae cyfleuster Gwasanaeth Cymdeithasol (Glanrafon), sy'n cynnig darpariaeth gwasanaeth i oedolion diamddiffyn.

Tra nad yw'r Awdurdod yn pennu penderfyniad ymlaen llaw ar y cynigion, mae'n ymchwilio ar hyn o bryd i ymarferoldeb prosiect integredig yn y Campws presennol yn Queensferry, a fydd yn cynnwys:

- Gwella darpariaeth sylfaenol yn ysgol gynradd Queensferry (3-11)
- Gwelliannau i'r ddarpariaeth gwasanaeth ieuenctid presennol ar y campws;
- Gwelliannau i gyfleusterau UCD yn Queensferry, a
- Dymchwel ysgol uwchradd John Summers a pharatoi'r safle ar gyfer adeiladau newydd/ailfodelu.

Efallai y bydd yr Awdurdod hefyd yn gallu defnyddio rhywfaint o waith arolwg sydd eisoes wedi'i wneud ar gyfer y cynnig blaenorol ar y campws i osgoi defnydd ofer o arian cyhoeddus.

Derbyniadau

Bydd recriwtio cychwynnol ar gyfer derbyniadau yn cael ei weinyddu gan ysgolion y bartneriaeth a'r coleg (ar gyfer ôl-16).

Bydd lleoedd yn cael eu neilltuo ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o flwyddyn 12 mewn ysgolion partneriaeth i flwyddyn 13 yn y ganolfan arfaethedig.

Wedi hynny, caiff derbyniadau i'r ganolfan ôl-16 eu gweinyddu gan y Coleg yn unol â'u polisi derbyn.

Caiff derbyniadau i ysgolion uwchradd cyfagos eu gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol drwy ei broses dderbyn cytûn.

Beth yw'r manteision, anfanteision a risgiau o ran y cynigion?

Ceir manteision sylweddol i ddatblygu'r ganolfan ddysgu ôl-16 a rhai anfanteision, er nad yw'r anfanteision yn rhai sylweddol.

Manteision y Cynigion

- Bydd amrywiaeth ac ansawdd y cyrsiau yn bodloni'r mesur dysgu a sgiliau ar gyfer dysgwyr.
- Bydd ystod ehangach o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yn cael eu darparu ar y cyd.
- Gellir cryfhau'r cysylltiadau hyfforddi presennol rhwng ysgolion yn Sir y Fflint a Choleg Cambria ar draws ystod lawn o gyrsiau galwedigaethol.
- Cronfa fwy a darpar weithwyr â gwell cymwysterau gydag amrywiaeth ehangach o gymwysterau.
- Bydd yr adeilad yn cyrraedd safon yr unfed ganrif ar hugain gyda chyfleusterau wedi eu hadeiladu'n bwrpasol yn hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol gwell.
- Gan y gellir cynnig yr holl gyrsiau mewn un cyfleuster, mae hyn o gymorth i sicrhau mwy o amser ar gyfer y cwricwlwm. Arwain at well presenoldeb a chynnydd yn y % o ddysgwyr 16-19 oed mewn Addysg a Hyfforddiant (cyflogaeth)
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol ar gyfer staff yn y cyfleuster.
- Gwell trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr a staff
- Hwylustod mynediad i adnoddau hyfforddi ar gyfer staff a myfyrwyr
- Gwell cynaliadwyedd ariannol.

Risgiau ac Anfanteision

- Posibilrwydd o golli rhai aelodau o staff o Ysgol Uwchradd John Summers
- Mae'n bosibl na fydd disgyblion yn dewis derbyn lle yn y ganolfan ôl-16 newydd
- Ni fydd darpariaeth ôl-16 yn cael ei ddarparu mwyach yn yr ysgol leol.
- Gall amharu ar bontio ar gyfer dysgwyr oherwydd y trosglwyddo i amgylchedd dysgu newydd
- Gall canolfan ôl-16 arwain at yr un canlyniadau addysgol â'r trefniadau consortiwm presennol.
- Gall dysgwyr ddewis symud i ddarpariaeth dysgu ôl-16 arall.
- Bydd nifer bach o ddisgyblion sy'n gallu cael mynediad i bob un o'r cyrsiau o'u dewis yn Ysgol Uwchradd John Summers yn gorfod teithio ymhellach i'r ganolfan ôl-16.

Bydd risgiau'n cael eu lliniaru drwy drefniadau pontio effeithiol a chyswllt da er mwyn sicrhau parhad o ran dysgu a'r broses recriwtio. Bydd cefnogaeth hefyd yn cael ei darparu i'r disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn cael cyngor ac arweiniad lle bo angen.

Mae Ysgol Uwchradd John Summers hefyd yn rhan o Grŵp Ymgynghorol y ganolfan ddysgu ôl-16 sydd wedi'i sefydlu ac sy'n gyfrifol am ddatblygu methodoleg gweithredu sy'n cynnwys ethos o weithio mewn partneriaeth ac sydd wedi'i integreiddio i'r modelau gweithredu ar gyfer y cyfleuster newydd.

Ystyrir bod yr anfanteision cadw'r status quo fel a ganlyn:-

- Cynnydd mewn gwahardd a phresenoldeb gwael oherwydd nad yw anghenion ysgol uwchradd John Summers yn cael eu bodloni, anniddigrwydd ac ymddieithriad
- Efallai y bydd dysgwyr yn dewis symud y tu allan i'r sir ar gyfer darpariaeth dysgu ôl-16 a all effeithio ar y gymuned
- Ni fydd y nifer o fyfyrwyr sy'n manteisio ar ddarpariaeth ôl-16 yn ddigonol i'r llywodraethwyr gwrdd â mesur dysgu 14-19

Dewisiadau amgen sydd wedi'u hystyried ar gyfer darpariaeth ôl-16

Mae'r Awdurdod wedi gweithio gydag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid allweddol o ran Strategaeth ôl-16, roedd hyn yn creu rhestr hir o opsiynau. Yng Nghonsortiwm y Gogledd roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Dewis 1 – gwneud dim, mae'r cynlluniau presennol yn aros fel y maent
- Dewis 2 – canolbwyntio ar ddarpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah, gyda rhywfaint o resymoli mewn mannau eraill
- Dewis 3 - rhannu'r ddarpariaeth a chydweithio ar sail Gogledd-orllewin (Treffynnon, Fflint a Sant Richard Gwyn) a'r Gogledd Ddwyrain (John Summers, Cei Connah, Dewi Sant, Saltney)
- Dewis 4 – ail-gategoreiddio pob ysgol i fod yn ddarparwyr oedran 11-16 a chael un darparwr ôl-16 gyda llywodraethu annibynnol

Roedd hyn wedi gostwng i'r rhestr fer fel a ganlyn:-

- Dewis 1 – Gwneud dim
- Dewis 2 – cydweithredu yn y Gogledd (canolbwyntio darpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah)
- Dewis 4 – cydweithredu yn y Gogledd (ail-gategoreiddio pob ysgol i 11-16 a gwneud un sefydliad annibynnol ar gyfer darpariaeth ôl-16)

Dewisiadau a ddiystyrwyd

- Dewis 1 – Gwneud dim – wedi'i ddiystyru oherwydd nad oedd trefniadau'r consortiwm yn gallu cynnal yr ystod o gyrsiau sy'n ofynnol o dan y mesur dysgu ac roedd canlyniadau trefniant y consortiwm yn is na'r cyfartaleddau perfformiadau Cenedlaethol a Sirol.

- Dewis 4 – cydweithredu yn y Gogledd (ail-gategoreiddio pob ysgol i 11-16 a gwneud un yn sefydliad annibynnol ar gyfer darpariaeth ôl-16 – Cafodd hyn ei ddiystyru oherwydd mai polisi'r Awdurdod (2010) oedd bod y ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion angen bod yn is na 120 o ddisgyblion cyn y byddai'r Awdurdod yn adolygu, felly roedd niferoedd ôl-16 mewn ysgolion eraill yn gynaliadwy.

Y Dewis a ffefrir

- Dewis 2 – cydweithredu yn y Gogledd (canolbwyntio ar ddarpariaeth ôl-16 yng Nghei Connah)

Dewisiadau a ystyriwyd ar gyfer cau ysgol

Rhestr hir o ddewisiadau;

- Dewis 1 – Gwneud dim
- Dewis 2 – dileu'r ddarpariaeth ôl-16 cynnal 11-16
- Dewis 3 – darpariaeth 3-16
- Dewis 4 – Ffederaleiddio gydag ysgol bartner
- Dewis 5 – Ffederaleiddio gyda chlwstwr o ysgolion yn yr ardal
- Dewis 6 – Cyfuno gydag ysgol bartner ar un safle
- Dewis 7 – Cyfuno gydag ysgol bartner ar nifer o safleoedd
- Dewis 8 – Cau ysgol

Rhif	Dewis	Manteision	Anfanteision
1	Gwneud dim	Dim amhariad. Darpariaeth leol	Ni fydd yr ysgol yn gallu bodloni'r amrediad o gyrsiau o dan y mesur dysgu 14-19 Nid yw'n rhoi sylw i fater cyflwr ac addasrwydd adeiladau.

Rhif	Dewis	Manteision	Anfanteision
			Niferoedd yn y ddarpariaeth ôl-16 ddim yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor na chynaliadwyedd ôl-16 (150 o ddisgyblion). Poblogaeth ysgol ymhell o dan y ffigwr rhagnodedig o tua 600 ar gyfer CA3/4 cynaliadwy.
2	Dileu darpariaeth ôl-16 cadw 11-16	Darpariaeth leol ar gyfer dysgwyr 11-16	Nid yw'n mynd i'r afael â'r mater lleoedd gwag. Nid yw'n rhoi sylw i'r mater cyflwr ac addasrwydd adeiladau. Poblogaeth ysgol ymhell o dan y ffigwr rhagnodedig o tua 600 ar gyfer CA3/4 cynaliadwy.
3	Darpariaeth 3-16	Darpariaeth leol ar gyfer dysgwyr 11-16	Nid yw'n mynd i'r afael â'r mater lleoedd gwag. Nid yw'n rhoi sylw i'r mater cyflwr ac addasrwydd adeiladau. Poblogaeth ysgol ymhell o dan y ffigwr rhagnodedig o tua 600 ar gyfer CA3/4 cynaliadwy. Llywodraeth Cymru yn annhebygol o gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf gofynnol.
4	Ffederaleiddio gydag ysgol bartner neu glwstwr o ysgolion	Darpariaeth leol ar gyfer dysgwyr 11-16. Rhai manteision addysgol ac effeithlonrwydd o rannu	Nid yw'n mynd i'r afael â mater lleoedd gwag. Nad yw'n rhoi sylw i'r mater cyflwr ac addasrwydd adeiladau. Poblogaeth ysgol ymhell o dan y ffigwr rhagnodedig o tua 600 ar gyfer CA3/4 cynaliadwy. Oni bai bod dysgwyr yn teithio rhwng safleoedd, ni fyddai'n gwella cyfleoedd yn

Rhif	Dewis	Manteision	Anfanteision
		arferion da ac arweinyddiaeth.	y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ar unrhyw safle.
5	Cyfuno gydag ysgol bartner ar un safle	Gallai wella cyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ysgol John Summers. Effeithlonrwydd mewn arweinyddiaeth ysgol yn mynd i'r afael â mater lleoedd gwag. Yn mynd i'r afael â mater cyflwr ac addasrwydd adeiladau	Cael gwared ar ddarpariaeth 11-16 lleol yn ardal Queensferry. Colledion swyddi posibl yn Ysgol Uwchradd John Summers ac ysgol bartner Ansicrwydd i fwy nag un gymuned, dros gyfnod hirach o amser er anfantais i ddysgwyr
6	Cyfuno gydag ysgolion ar nifer o safleoedd	Gallai wella cyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ysgol John Summers. Rhywfaint o effeithlonrwydd mewn arweinyddiaeth ysgol	Nid yw'n mynd i'r afael â mater lleoedd gwag. Nid yw'n mynd i'r afael â mater cyflwr ac addasrwydd adeiladau Byddai dysgwyr yn gorfod teithio/trosglwyddo rhwng safleoedd i gyflawni manteision y cwricwlwm mwy. Colledion swyddi posibl yn Ysgol Uwchradd John Summers ac ysgol bartner

Rhif	Dewis	Manteision	Anfanteision
			Ansicrwydd i fwy nag un gymuned, dros gyfnod hirach o amser er anfantais i ddysgwyr
7	Cau ysgol (gydag ysgol uwchradd Cei Connah fel yr "ysgol sy'n derbyn")	Gallai wella cyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ysgol John Summers. Arbedion effeithlonrwydd mewn arweinyddiaeth ysgol Yn mynd i'r afael â mater lleoedd gwag. Yn mynd i'r afael â'r mater cyflwr ac addasrwydd adeiladau. Caniatáu parhad pontio ac mae'n cael yr effaith lleiaf ar ddysgwyr yn ystod y blynyddoedd arholiad	Cael gwared ar ddarpariaeth leol 11-16 yn Queensferry. Colledion swyddi posibl yn Ysgol Uwchradd John Summers

Rhif	Dewis	Manteision	Anfanteision
		Cyfnod byrrach o ansicrwydd	

Dewisiadau a ddiystyrwyd

Dewis 1 – Mae'r prosiect cydweithredol gyda Choleg Cambria ar gyfer trawsnewid addysg ôl-16 eisoes wedi'i gymeradwyo ac yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Mae nifer y myfyrwyr ôl-16 yn Ysgol John Summers yn ei gwneud yn amhosibl i Lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers gynnig yr ystod o gyrsiau fel a ragnodir gan y mesur dysgu 14-19. Yn ogystal, mae trefniadau'r consortiwm ôl-16 Gogledd Sir y Fflint blaenorol mewn cyfnod o ddatgomisiynu. Er mwyn diogelu hawl dysgwyr i gael mynediad i ystod eang o gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel, mae Strategaeth Foderneiddio'r Cyngor (2014) yn nodi y bydd darpariaeth ôl-16 mewn unrhyw ysgol uwchradd lle mae nifer y disgyblion o fewn addysg chweched dosbarth o dan 150 o ddisgyblion am dair blynedd yn olynol yn cael ei hadolygu.

Dewis 2- mae yna hefyd bryder ynglŷn â nifer annigonol presennol a rhagamcanol disgyblion yn y dyfodol i gefnogi darpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd John Summers. Mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan ostyngiad a ragwelir mewn cyfraddau geni. Mae safle Ysgol Uwchradd John Summers yn adeilad ysgol sy'n heneiddio ac mae'r seilwaith ategol yn anghynaliadwy, a phryderon am yr ysgol yn gallu cynnal digon o gyfleoedd cwricwlwm gyda niferoedd disgyblion a chyllidebau'n gostwng. Mae gan Ysgol Uwchradd John Summers nifer uchel o leoedd gwag gyda mwy na 25%, sy'n sbardun yn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion yr Awdurdod.

Dewis 3 - Mae model 3-16 wedi'i brofi eisoes drwy broses achos busnes trysorlys EM Llywodraeth Cymru a chafodd y prosiect ei atal yn seiliedig ar bryder nad oedd y dadansoddiad o'r data yn cefnogi'r parhad i Achos Busnes Llawn ar gyfer cyllid cyfalaf.

Dewis 4 – Wedi'i ddiystyru ar y sail nad yw'n cynhyrchu'r arbedion effeithlonrwydd gorau ac mae'r ffaith nad yw'r seilwaith yn Ysgol Uwchradd John Summers yn gynaliadwy yn ei wneud yn anhyfyw.

Dewis 5 – Mae rhywfaint o werth o ran trin staff yn deg mewn ysgolion wedi eu huno, fodd bynnag, mae gan y dewis hwn y potensial i ansefydlogi'r ardal ehangach a

chreu oedi/risgiau creu ethos gweithredu newydd ac amgylchedd mewn ysgolion sydd yn gynaliadwy a chanddynt ganlyniadau da.

Dewis 6 – nid yw'n cynhyrchu arbedion priodol mewn seilwaith, staffio a byddai hefyd yn niweidiol i ddysgwyr fyddai'n gorfod teithio o bosibl i nifer o safleoedd ar gyfer ystod briodol o gyrsiau. Yn ogystal, mae hefyd y potensial i ansefydlogi ardal ehangach a chreu oedi/risg mewn creu ethos gweithredu ac amgylchedd newydd.

Beth sy'n rhaid i chi ei ystyried nawr?

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnig ar gyfer newid ystod oedran ysgol uwchradd John Summers o 11-18 oed i 11-16.

Gwneir y Cod am drefniadaeth ysgolion ("y Cod") o dan adrannau 38 a 39 o Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) Deddf 2013. Daeth y Cod i rym ar 1 Hydref 2013 ac mae'n berthnasol i holl gynigion yr ysgol. Mae cynigion i newid ystod oedran ysgol yn gorfod dilyn y broses ganlynol:-

1. Mae'r Cyngor yn ystyried y Cod ac yn awdurdodi ymgynghoriad ar y newidiadau i'r ysgol;
2. Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori mae'n **rhaid** i'r Cyngor ddarparu dogfen ymgynghori i ymgyngoreion a rhoi o leiaf 42 diwrnod iddynt ymateb, gydag o leiaf 20 o'r diwrnodau hyn yn ddiwrnodau ysgol. Os bydd y Cyngor yn ei ystyried yn briodol, cynhelir cyfarfodydd â budd-ddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori;
3. Cesglir sylwadau ar yr ymgynghoriad a chrynhoir gan y cyngor. Mae'r crynodeb hwn ynghyd ag ymatebion swyddogion y Cyngor ei hun yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad ymgynghori o fewn 3 mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori a'i gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar gyfer ystyriaeth;
4. Mae Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â newidiadau o fewn 6 mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Os mai'r penderfyniad yw bwrw ymlaen, cymerir cam 5. Os bydd dewis newydd yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghoriad, yna ailadroddir Camau 1-3;
5. Cyhoeddir hysbysiad statudol yn darparu cyfnod o 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'n **rhaid** i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a chydag o leiaf 15 diwrnod ysgol (heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) yng nghyfnod y rhybudd;
6. Os derbynnir gwrthwynebiadau, mae'n **rhaid** i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebu gan roi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'u hymatebion iddynt cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu;

7. Yn achos darpariaeth ôl-16 anfonir y cynigion ar gyfer penderfyniad gweinidogol, mae hyn fel arfer o fewn 16 wythnos i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu;
8. Os bydd y cynigion yn cael cymeradwyaeth dylid eu gweithredu yn unol â dyddiad a roddir yn yr hysbysiad statudol, neu unrhyw ddyddiad dilynol wedi'i addasu.

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch adael i ni wybod eich barn am y cynigion. Gallwch:

- Lenwi holiadur ar-lein yn www.flintshire.gov.uk/areaschoolsreview
- Lenwi ffurflen ymateb a'i dychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND; neu
- Fel arall, anfonwch eich ymatebion/cwestiynau yn ysgrifenedig at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND neu e-bost: 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Bydd y cyfnod ymgynghori yn cau ar **17 Gorffennaf 2015.**

Noder nad yw ymatebion i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau.

Gellir cyflwyno'r rhain yn dilyn y cam nesaf yn unig, sef cyhoeddi hysbysiad statudol, sy'n nodi'r dewis terfynol mae cynghorwyr wedi penderfynu arno. Bydd hwn yn ymddangos yn yr ysgol ac ar wefan y Cyngor. Bydd yr ysgol yn cael gwybod pan fydd hyn yn cael ei gyhoeddi, ac os hoffech dderbyn hysbysiad, rhowch eich manylion yn Atodiad A.

Atodiad A

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

(Noder na fydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyfrif fel gwrthwynebiad ffurfiol)

Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd John Summers o 11-18 oed i 11-16 (2016)

Cau Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry yn llwyr (Awst 2017)

Cyn i chi ddechrau – os hoffech chi lenwi'r ffurflen hon ar-lein, ewch i: www.siryfflint.gov.uk/adolygiadysgolardal

Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd i chi yn y llyfryn hwn, yn y digwyddiad ymgynghori ac o ddogfennau eraill ar gael ar wefan y Cyngor, dywedwch wrthym eich barn ar y dewis a ffefrir gan y Cyngor yn eich ardal.

Pa mor gryf ydych yn cytuno gyda'r ymgynghoriad i newid ystod oedran yr ysgol o 11-18 oed i 11-16?

☐ Cytuno'n gryf ☐ Tueddu i gytuno ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐ Tueddu i Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf

Pa mor gryf ydych yn cytuno gyda chau Ysgol Uwchradd John Summers, Queensferry yn llwyr (Awst 2017)?

☐ Cytuno'n gryf ☐ Tueddu i gytuno ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐ Tueddu i Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf

Dywedwch wrthym pam rydych yn teimlo fel hyn. Rhowch ddisgrifiad o unrhyw ddewis amgen a ydych yn dymuno ei gyflwyno.

_____

_____

_____

Amdanoch chi:

I'n helpu i ddeall beth yw barn grwpiau gwahanol o bobl, dywedwch wrthym ychydig amdanoch eich hun:

Rhowch eich manylion cyswllt isod (*yn anffodus nid ydym yn gallu ystyried ymatebion os na ddarperir manylion cyswllt, gan gynnwys y cod post llawn)*

Enw: _____

Cyfeiriad:

_____

Cod post:

_____

Ydych chi'n:

□ Rhiant/Gofalwr □ Athro/athrawes □ Staff Cefnogi

□ Llywodraethwr □ Arall

Enw'r ysgol :

□ Hoffwn gael gwybod am unrhyw hysbysiad statudol yn y dyfodol sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn.